Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

2020/2021

# Adroddiad Sefydliadol #5

**Y cyfnod dan sylw: 1 Ebrill– 30 Mehefin 2020**




Murlun y Tŵr Dŵr Cymru Ryfedd a Chyfareddol

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Mewnwelediadau**
Diweddariad COVID-19 .......................................................................... 3
Uchafbwyntiau Sefydliadol, Gweithgaredd a Gweithredol....................... 4

**Effaith Sefydliadol**
Y newid tymor hir y byddwn yn eu cynhyrchu i Gymru............................ 7

**Canlyniadau Sefydliadol**
Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid.................................................................................................. 7

**Allbynnau Sefydliadol**
Prif Nodau Llwyddiant mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd ..... 8
Mesurau Llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu.... 11

**Gwerthuso**
Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu................................................................ 16
Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau ...................................................17

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol ac un eitem ychwanegol) ac ein **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol** a'n **Gwersi i'w Dysgu.**
- Mae'r targedau sydd wedi eu cynnwys ar **gyfer blwyddyn 2** (2020/2021) o 4 blynedd y Cynllun Strategol. Mae'r targedau yma'n cynrychioli ein huchelgeisiau, sydd yn gysylltiedig â'r prosiectau yn ein rhaglen gweithgaredd a gweithredoedd presennol a'n patrymau gwleidyddol, demograffig ac economaidd presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar ffynonellau cyllid allanol, a bydd rhai'n cael eu haddasu neu'n troi'n annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu heffeithio gan ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol ni. Am y rhesymau hyn**, mae'r targedau hyn yn rhagolwg o sut fydd llwyddiant yn edrych ac mae'n bosib y cânt eu hadolygu'n rhesymegol.**
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn yr adroddiad hwn, ynghyd ag un arall ar lefel prosiect mwy manwl, sy'n canolbwyntio ar gynnydd misol tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwersi i'w dysgu o brosiectau. Gall y Bwrdd Rheoli wneud cais i weld y ddogfen hon yn ôl yr angen, ac mae'n bosib y byddant yn dewis gwneud hynny'n achlysurol fel arfer da.
- Mae'r **adroddiad hwn yn cynnwys targedau wedi eu diweddaru ar gyfer 2020/2021.** Gan ystyried ein cynnydd yn ystod blwyddyn 1 ochr yn ochr ag ansicrwydd ein rhaglen weithgaredd o ganlyniad i COVID-19, aethom ati i ganfod set newydd o Amcanion Sefydliadol ar gyfer blwyddyn 2. Yn ogystal, yn hytrach na chynnig cynnydd cronedig, yn yr adroddiad hwn rydym **yn hytrach wedi nodi eglurhad dros y targedau** sydd wedi eu haddasu.

# Diweddariad **COVID-19**

**Rydym wedi parhau yn wydn ac yn ymatebol yn ystod yr argyfwng COVID-19.**

Er i ni ohirio nifer o'n gweithgareddau ar ddechrau'r cyfnod, rydym wedi parhau i ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron a dathlu diwylliant llenyddol Cymru wrth addasu rhai o'n prosiectau sy'n bodoli'n barod a'u cynnal mewn ffyrdd newydd addas, yn ogystal â datblygu cynlluniau sy'n gweddu anghenion newydd ein cleientiaid.

Mae'r **Children's Laureate** wedi parhau i o ddiddanu ac ysbrydoli plant Cymru plant Cymru drwy sialensiau wythnosol cyffrous. Mae'r Children's Laureate a'r Bardd Plant hefyd wedi cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau uchel eu proffil amrywiol, gan gynnwys dathliad 20 mlynedd Bardd Plant Cymru fel rhan o **Tafwyl,** ac erthygl ar y Children's Laureate yn **The Bookseller.**

Cafodd **20 awdur** o amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiad gyrfa **eu comisiynu** i greu cynnwys i ddiddanu, ysbrydoli ac addysgu cynulleidfaoedd creadigol ac awduron ar draws Cymru. Maent yn cynnwys cyfweliadau gyda beirdd ar Youtube, Ailgymysgiad Rhyngddisgyblaethol am hil a hunaniaeth, Dosbarthiadau Meistr ar Sut i ddod o hyd i asiant, ac mae'r holl awduron creadigol wedi creu arlwy o weithgareddau llenyddol sydd ar gael i amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae'r gwaith comisiwn sydd ar waith yn barod wedi cyrraedd **500 o bobl,** ac mae'r hyrwyddo sydd wedi ei wneud ar y cyfryngau cymdeithasol wedi derbyn dros **50,000 o argraffiadau** ar ein prif sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** wedi aros ar gau, ond rydym wedi parhau i redeg rhaglen o weithgareddau yn gysylltiedig â'n brand. Mae'r mentrau newydd yn cynnwys lansiad ein Cyrsiau Digidol cyntaf erioed sy'n cael eu cynnig am bris isel er mwyn sicrhau gwell hygyrchedd. Rydym wedi derbyn **dros 50 archeb** o fewn pythefnos o lansio'r cyrsiau. Mae'r cyrsiau byr yn cynnwys rhai o awduron gorau Cymru, gan gynnwys awdur gwerthwr gorau *thriller* seicolegol y *Sunday Times*, Clare Mackintosh, ac fe **lenwodd y cwrs hwn o fewn 24 awr.**

Erbyn hyn, rydym wedi cyrraedd y camau olaf o **weithio gyda BBC Cymru** i gyhoeddi enillydd **Llyfr y Flwyddyn** eleni'n fyw ar yr awyr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cynnwys cyffrous, gan gynnwys sgyrsiau panel, darlleniadau a gweithgareddau rhyngweithiol, er mwyn rhoi llwyfan i'r gymuned lenyddol fywiog yma yng Nghymru a thu hwnt.



Map Ymwelwyr y Byd yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Sefydliadol

- Rhoesom **50% o arian y loteri a oedd wedi'i glustnodi inni** ar gyfer 2020-2021 i Gronfa Gwytnwch y Celfyddydau Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn ymateb i argyfwng COVID-19.
- Rhoesom gefnogaeth ar ffurf gwasanaeth a chyllid i'r **Tasglu ar Gymru, Hil a Diwylliant,** sy'n ceisio ymchwilio, herio a chynghori'r sector celfyddydau a diwylliant am gydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Gweithgareddau

- **Comisiynwyd 20 o awduron llawrydd** i ddylunio a chreu cynnwys a phrosiectau digidol gwreiddiol i gynulleidfaoedd, ar ôl cyhoeddi dwy alwad, yr ail ar y cyd â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru.
- Cafodd **saith bardd** le ar ein Dosbarth Meistr Digidol mewn Barddoniaeth gyda Gillian Clarke i ddathlu pen-blwydd Tŷ Newydd yn 30 fel Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru.
- Dathlodd cynllun **Bardd Plant Cymru** ei 20fed pen-blwydd gyda thrafodaeth fywiog am brofiadau'r rheini sydd wedi cyflawni'r swydd, a hynny yng nghwmni'r bardd plant presennol, Gruffudd Owen, a Casia Wiliam ac Ifor ap Glyn, dau o'r beirdd plant blaenorol.
- Cyhoeddom y byddai gwobr **Llyfr y Flwyddyn** yn cael ei chynnal yn yr haf eleni mewn fformat digidol newydd.
- Lansiwyd rhaglen gyntaf erioed cyrsiau digidol **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd** ar gyfer haf 2020.
- Cyflwynwyd y digwyddiad amlieithog '**Mamieithoedd'** ar y cyd â'r British Council Cymru, Llywodraeth Cymru a'r British Council Ireland yng Ngŵyl Lenyddiaeth Ryngwladol Cúirt.
- Lansiwyd prosiect newydd **'Weave | Plethu**', sy'n pontio'r celfyddydau, ar y cyd â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.



## Gweithredol

- Ymunodd Llenyddiaeth Cymru â Mind Casnewydd a'r Tŷ Cymunedol, Prosiect Ieuenctid Maendy i gynnal prosiect gyda chyllid Comic Relief, ar ôl gwneud **cais llwyddiannus i godi arian.**
- Lansiwyd **arolygon rhanddeiliaid** i gael gwybodaeth gan ein cynulleidfaoedd am ein hymateb i COVID-19, ein rhaglen gyffredinol o weithgareddau, a'n sianeli marchnata a chyfathrebu, a chafwyd dros 460 o ymatebion.
- Cafodd ystod o **adnoddau marchnata a chyfathrebu digidol eu creu a'u lledaenu** i annog plant, pobl ifanc ac oedolion i rannu eu gweithgareddau darllen yn ystod y cyfyngiadau symud.
- Cyflwynwyd ceisiadau **codi arian** 2 gam llwyddiannus i Clwstwr ar gyfer prosiect datblygu gêm fideo sydd wedi'i seilio ar chwedlau a mythau llenyddol Cymru.




Cafodd 7 bardd le yn ein Dosbarth Meistr Digidol gyda Gillian Clark i ddathlu pen-blwydd **Tŷ Newydd** yn 30 oed.



Gwnaethpwyd cais codi arian llwyddiannus ar gyfer **prosiect cyfranogol** gyda Mind Casnewydd a'r Tŷ Cymunedol.



Cyflwynwyd y cwrs Cymraeg newydd, Ysgrifennu i Oedolion Ifanc yng **Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**, ac 11 o egin awduron yn bresennol.



Lansiwyd arolwg drwy gylchlythyr gyda'r nod o gael barn ein cynulleidfa am **Gynllun Marchnata a Chyfathrebu 2020-2023**.





Rhoddwyd **Comisiynau Awduron** yn llwyddiannus i 20 o awduron o ystod eang o gefndiroedd.



Lansiwyd arolwg 'Sut gallwn ni helpu' er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cyfrannu at **ddatblygu ein rhaglen o weithgareddau.**.




Cefnogwyd ymgyrch Cynghrair Anabledd y DU i hyrwyddo **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** yn y sector.




Crëwyd **Adnoddau Marchnata a Chyfathrebu** i annog ein cynulleidfaoedd i rannu eu rhestrau darllen.




Cyflwynwyd digwyddiad amlieithog yng Ngŵyl Lenyddol Ryngwladol Cúirt i **roi llwyfan i lenyddiaeth a barddoniaeth Cymru.**

**Dywedon ni fod angen inni gyflawni'n well ar gyfer y sector llenyddiaeth ehangach.**

Rydym wrthi yn gwneud hyn drwy symud y pwyslais o ddarpariaeth uniongyrchol i hwyluso, a thrwy greu partneriaethau ag eraill er mwyn iddynt ddarparu gweithgareddau eu hunain ac i'w cymunedau.

## Ers Ebrill 2019...

**1,000+**
Rydym wedi cyflawni 1,000+ awr o waith Hwyluso yn y Sector ar gyfer y sector llenyddol

**789**
Mae 789 o grwpiau, unigolion a sefydliadau wedi derbyn cefnogaeth hwyluso

**109**
Mae 109 o brosiectau dan arweiniad partneriaid neu bartneriaid eilaidd wedi derbyn cefnogaeth neu gymorth hwyluso

**20**
Mae 20 o brosiectau llenyddol cynaliadwy a gynhelir gan bobl eu hunain mewn ardaloedd anghenus wedi eu hysgogi



# Uchafbwynt: **Hwyluso yn y sector**

O rannu arferion gorau gyda sefydliadau llenyddol newydd, i awgrymu awduron o bob cam o'u gyrfa ar gyfer cyfleoedd allanol cyffrous, i fuddsoddi amser mewn unigolion ar ddechrau eu gyrfa ysgrifennu, dyma enghreifftiau o rhai o'n uchafbwyntiau yn cefnogi'r sector lenyddol:

Cefnogi **Unigolion:**

- Cysylltodd y bardd Marvin Thompson i ofyn am gefnogaeth gyda datblygu ei yrfa ysgrifennu. Cafodd ei gyfrol barddoniaeth ei ddewis gan y *Forward Arts Foundation* ar gyfer hyrwyddo Diwrnod Barddoniaeth Rhyngwladol. Roedd yn awyddus i'w farddoniaeth fod ar gael yn y Gymraeg, ac felly fe glustnodon ni swm o £50 i alluogi cyfieithydd i weithio gydag ef. **Mae Marvin wedi parhau i weithio gyda cyfieithwyr ar brosiectau eraill**, ac mae ei farddoniaeth ar hil a'r mudiad #BlackLivesMatter wedi cael ei gyhoeddi ar-lein. Marvin fydd yr awdur Cymraeg cyntaf i hyrwyddo Cymru fel rhan o Ddiwrnod Barddoniaeth Rhyngwladol a bydd yn cynrychioli Diwylliant Llenyddol Cymru ar raddfa rhyngwladol.

Cefnogi **Grwpiau Llenyddol**

- Darparwyd gofod mewn nawdd i ddau grŵp llenyddol ('Y Stamp' a 'Where I'm Coming From) i gydweithio a dechrau sgyrsiau am hil, diwylliant a iaith yn Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. O00 ganlyniad i'r gweithdy cyntaf hwn, ffurfiwyd grŵp newydd, 'Hunan-Iaith', ar y cyd rhyngddynt, sy'n ceisio canfod dulliau arloesol i fynegi syniadau. Ers y gweithdy cyntaf, maent wedi derbyn cynigion am gefnogaeth gan sefydliadau cenedlaethol ac rydym yn parhau i gefnogi perthnasau rhwng y grŵp a'r sector.

Cefnogi **Sefydliadau:**

- Ymunodd ein Pennaeth Datblygu & Dirprwy Brif Weithredwr â Bwrdd Cyfarwyddwyr *Seren Books* yn 2019 er mwyn darparu cefnogaeth ar eu cyfeiriad strategol, cynllunio busnes a comisiynu. Hyd yn hyn, mae wedi arwain at raglen gŵyl sy'n cynrychioli ddiwylliant llenyddol Cymru yn well, ymrwymiad i sicrhau gwell amrywiaeth ymysg yr awduron sy'n cyhoeddi eu gwaith â nhw, a chyfleoedd golygu *Poetry Wales* gyda thâl ar gyfer awduron sy'n cyfateb gyda'n Nodweddion Cleientiaid a Dargedir.

# Effaith Sefydliadol a Chanlyniadau

| | Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| **Effaith Sefydliadol** | Byddwn ar ein ffordd i **rymuso, gwella a goleuo** bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach a llesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru | Mae'r Arolwg Hydredol dros dair blynedd wedi'i greu a'i anfon i sampl cynrychioladol o 10 o gleientiaid, sydd wedi'u contractio i'w gwblhau ddwywaith y flwyddyn. Mae tri chleient newydd wedi'u dewis i gymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2020-2023, a byddwn yn ehangu'r sampl drwy gynnwys 3 chleient arall eleni.<br><br>Bydd y dadansoddiad nesaf o'r Arolwg Hydredol ar gael ar ôl i'r cleientiaid gwblhau arolwg#3 ym mis Medi/Hydref 2020.<br><br>Yn y cyfamser, rydym yn dal mewn cyswllt â'r sampl presennol o gleientiaid wrth iddynt barhau i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru, sefydliadau eraill a chyfleoedd proffesiynol. | Arolwg Hydredol 2019-22 |
| **Canlyniadau Sefydliadol** | Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael:<br><br>▪ **Gwell** sgiliau siarad ac ysgrifennu<br>▪ **Mwy** o hunanhyder<br>▪ **Rhagor** o gyfleoedd gwaith<br>▪ **Llai** o bobl yn teimlo'n ynysig<br>▪ **Risg is** o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well<br>▪ **Cyfle** i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd<br>▪ **Gwell** gallu i ddangos empathi<br>▪ **Gwell** sgiliau amlieithog | | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi **cynyddu 1.2 pwynt canran** o 8.2% yn 2016 i 9.4% erbyn 2021 **(**sy'n gyfwerth â **41,400 o bobl yn ychwanegol)** | Yn ôl adroddiad cryno Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru 2020, roedd **11.5%** o oedolion wedi cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (**cynnydd o 3.3 pwynt canran** ers 2016), a dyma oedd un o'r ffurfiau mwyaf poblogaidd o gyfranogi yn y celfyddydau. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 0.6 i 1.2 gan i Arolwg Omnibws CCC ganfod mai'r ffigur ar gyfer 2019 oedd 11.5%. Fodd bynnag, rydym wedi lleihau targed 20/21 fymryn oherwydd COVID-19. | Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau |
| Mae o leiaf **110,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa** yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol, o gymharu â 82,000 yn 19/20. | Ers mis Ebrill 2020, rydym wedi ymwneud â **18,914 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd** drwy brosiectau a chomisiynau digidol newydd. Mae ein trefnwyr digwyddiadau Awduron ar Daith wedi symud tuag at ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu eu digwyddiadau ar-lein, gan gynnwys darllediadau drwy Zoom a Skype. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 106,000 i 110,000 yn 20/21. Bydd y targed hwn hefyd yn cynnwys ymwneud digidol er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn ein gweithgarwch ar-lein yn cael sylw. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **43% o'n cyfranogwyr creadigol** yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed, o gymharu â tua 20% yn 19/20. | Mae'r ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth bellach **wedi'i chwblhau ac wedi'i dosbarthu i sampl cynrychioladol o gyfranogwyr**. Oherwydd COVID-19, mae nifer o'r gweithdai wedi'u gohirio. Rydym yn y broses o greu fframwaith i gasglu data gan y rheini sy'n ymwneud â'n comisiynau digidol. | Mae'r targed hwn wedi dyblu o 17% i 34% wrth inni roi mwy o bwyslais ar ddarparu prosiectau sy'n blaenoriaethu ymwneud â chleientiaid sydd â'r nodweddion rydym ni'n eu targedu. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Mae o leiaf **450 cyfranogwr creadigol** yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol, o gymharu â 518 yn 19/20. | Mae cyfanswm o **103 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron. Er enghraifft, rhoddwyd gwybod i amryw o gyfranogwyr y gorffennol am ein cyrsiau ysgrifennu creadigol rhithwir, cost isel, yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 17 i 450 yn dilyn ffigurau llwyddiannus 2019, o ganlyniad i'n cylch gwaith newydd. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Rydym yn darparu o leiaf **300 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** ar gyfer egin awduron yn flynyddol, o gymharu â 293 yn 19/20. | Rydym wedi darparu **41 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd** ers mis Ebrill. Mae hyn yn cynnwys yr awduron a gafodd gomisiwn llwyddiannus a'r beirdd a gafodd eu dewis i gymryd rhan yn ein dosbarth meistr digidol mewn barddoniaeth. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 140 i 300 yn 20/21. Drwy roi rhagor o bwyslais ar ddatblygu awduron yn 2019, dangoswyd ein gallu i ddarparu cyfleoedd i awduron Cymru. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae ein gwybodaeth datblygu awduron ar-lein yn cael o leiaf **30,000 o ymweliadau unigryw** i'r tudalennau perthnasol yn flynyddol, mewn cymhariaeth â 35,000 yn 19/20. | Mae **9,189 o dudalennau wedi'u gweld yn unigryw** ar y rhan o'r wefan sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygu awduron. Byddwn yn gweithio i gynyddu ein cynnwys gwreiddiol i awduron, gan i dros 50% o'r ymatebwyr i'n harolwg 'Sut gallwn ni helpu? ddweud wrthym yr hoffent weld mwy o hyfforddiant ar-lein a chyngor datblygu proffesiynol i awduron. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 5,000 i 30,000 yn 20/21. Fel y crybwyllwyd uchod, lansiwyd amrywiaeth o brosiectau newydd gennym yn 2019 yn canolbwyntio ar ddatblygu awduron. Ynghyd â'r pwyslais mwy ar hyn fel colofn weithgaredd, cafodd ein tudalennau eu gweld fwy na'r disgwyl. | Google Analytics |
| Darperir cefnogaeth barhaus i gyfanswm o **80 awdur ifanc** (rhwng 16 a 30 oed) yn flynyddol, o gymharu â 140. | Mae **11 awdur ifanc** wedi cael cefnogaeth barhaus drwy ein gweithgareddau diweddar. Roedd un o'r awduron ar ddechrau'i yrfa a gafodd gomisiwn awdur wedi defnyddio'i oedran fel ysgogiad i archwilio a myfyrio am ei brofiadau yn y gorffennol. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 4 i 80 yn 20/21. Yn sgil y pwyslais mawr a roesom ar awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd, llwyddwyd i ymwneud â nifer uchel o awduron ifanc o dan 30 oed. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol 1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae o leiaf **200 awdur profiadol** a **250 darn o waith llenyddol** yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol, o gymharu a 250 a 244 yn 19/20. | Mae **33 o awduron profiadol a 37 gwaith llenyddol** wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel. Ym mis Mehefin, cyflwynodd Gillian Clarke Ddosbarth Meistr Digidol mewn Barddoniaeth i saith bardd, a oedd yn cynnwys darlleniad gan Mona Arshi i ysbrydoli'r beirdd. Rhoddwyd cyfle i'r saith unigolyn ddatblygu ymhellach drwy drafod ffurf, telynegrwydd a phosibiliadau dychmygus eu gwaith. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 15 ac 17 i 200 a 250 yn y drefn honno ar gyfer 20/21. Drwy ein prosiectau llysgenhadol, cyrsiau ysgrifennu creadigol a digwyddiadau proffil uchel, bu inni ymwneud â nifer uwch o awduron a gweithiau llenyddol na'r disgwyl yn 2019. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar **o leiaf 20 partneriaeth a phrosiect cyfnewid** y tu allan i Gymru yn flynyddol, o gymharu â 21 yn 19/20. | Rydym wedi hwyluso a chydweithio ar **3 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru**. Ym mis Ebrill, cymerodd ein Prif Weithredwr ran yn 'Mamieithoedd', trafodaeth ddigidol a roddai sylw i'r syniad o iaith o safbwyntiau'r Gymraeg, Gaeleg yr Alban a Gwyddeleg. Darparwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â'r British Council Cymru, Llywodraeth Cymru a'r British Council Ireland. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 2 i 20 ar ôl inni ymwneud â nifer o brosiectau y tu allan i Gymru yn 2019. Felly, o ganlyniad i bartneriaethau newydd, disgwyliwn barhau â'n gweithgarwch rhyngwladol. | |
| Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf **35 comisiwn y flwyddyn** yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill , o gymharu a 43 yn 19/20. | Drwy ein hymyriadau ni, mae **23 o gomisiynau** wedi'u rhoi i awduron profiadol gan sefydliadau eraill. Ym mis Mai, comisiynwyd Bardd Plant Cymru gan yr Urdd i ysgrifennu Cywydd Croeso Eisteddfod T (yr eisteddfod ddigidol). Ewch i fan hyn i wrando. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 2 i 35. Gwelsom fod yr allbwn hwn yn hollbwysig wrth annog eraill i hyrwyddo ein diwylliant llenyddol, felly byddwn yn parhau i geisio cynyddu nifer y comisiynau. | |
| Mae o leiaf **24 egin awdur** yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol, o gymharu â54 yn 19/20. | Mae **25 o awduron ar ddechrau'u gyrfaoedd** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel ers mis Ebrill 2020. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 2 i 24. Fel y gwelwyd yn 2019, bydd prosiectau fel rhai'r Children's Laureate Wales yn ein helpu i gyflawni hyn. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **70% o'n data** o brosiectau gweithredol gweithgarwch wedi'i storio yn ein hwb monitro a gwerthuso canolog | Mae’r data sy’n cael eu storio yn ein porth monitro a gwerthuso canolog **wedi cynyddu tua 5 pwynt canran** yn y cyfnod uchod (o 65 i 70%). Rydym wedi addasu ein dull o werthuso ein prosiectau yn 20/21, mewn ymateb i COVID-19. Er enghraifft, gofynnwyd i’r awduron a gafodd gomisiwn rannu eu dulliau casglu data â Llenyddiaeth Cymru mewn portffolio gwerthuso. | Mae’r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. Byddwn yn parhau i gasglu ffigurau gan staff yn fisol ar gyfer gofynion Adrodd Sefydliadol. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol |
| Mae **1 Adroddiad Blynyddol** yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg | Rydym ar hyn o bryd wrthi’n cynllunio Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol 2019-20, a bydd hwn ar gael yn hydref 2020. Byddwn hefyd yn lansio ymgyrch feddal gyda phenawdau am y data yng nghanol yr haf. | Mae’r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. | |
| Cynhyrchwyd **12 adroddiad gwerthuso misol** a **4 adroddiad gwerthuso chwarterol** | Dyma ein hadroddiad gwerthuso chwarterol cyntaf yn 20/21. Rydym yn treialu cynnwys newydd (e.e. rhoi sylw i adran benodol) er mwyn dangos ein cynnydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr, Cyngor Celfyddydau Cymru a’n cleientiaid. Rydym bellach wedi creu fformat syml er mwyn i’r Uwch Dîm Rheoli gael adroddiad cynnydd misol yn ystod 2020/2021. | Mae’r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. | |
| **Caiff 85% o'r prosiectau newydd neu brosiectau parhaol eu cyflwyno** i'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae pob un yn cyfeirio at bwyntiau dysgu o'n dadansoddiad | Rydym yn diwygio ein system ar gyfer cyflwyno syniadau o ganlyniad i newidiadau i’n rhaglen yn sgil COVID-19. Mae staff wedi cael eu hannog i gynnig syniadau am brosiectau newydd i’r Uwch Dîm Rheoli, gyda’r nod o helpu awduron llawrydd a chymunedau yn ystod COVID-19. | Mae’r targed hwn wedi cynyddu fymryn o 70% i 85%. Golygodd ein canolfannau cost ariannol newydd a’n rhaglen dynnach o weithgareddau na chafodd gweithgareddau newydd eu datblygu heb gymeradwyaeth yr Uwch Dîm Rheoli. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Adnoddau Dynol**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **100% o'r staff** wedi mynychu **dau sesiwn hyfforddi ar draws timau** | Mae **15% o staff wedi bod i 1 sesiwn hyfforddi i'r holl dimau** yn y cyfnod uchod. Ym mis Mai 2020, cymerodd tri aelod o staff ran mewn gweithdy Rhagfarn Ddiarwybod a gydlynwyd gan Dawns Cenedlaethol Cymru i'r sector. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 40% i 100% yn 2021. Rydym yn awyddus i'r holl aelodau o staff gael cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **2 aelod o staff** wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau) | Mae **1 aelod o staff** yn elwa o ddatblygu proffesiynol parhaus yn ystod y cyfnod hwn. Mae ein Hintern Creadigol yn dilyn rhaglen hyfforddiant a mentora busnes fel rhan o Gynllun Interniaeth Greadigol Celfyddydau a Busnes. | Mae'r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. | Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad |
| Mae lefelau boddhad staff wedi cynyddu **o leiaf 7%** | Mae'r arolwg o les y staff wedi'i ohirio ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, rydym yn blaenoriaethu lles y staff yn y cyfnod hwn ac yn rhannu adnoddau'n gyson i gefnogi'r tîm wrth i bobl weithio o gartref. | Mae'r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. | |
| Mae **o leiaf 5%** o'n cyflogeion, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn bobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, mae gan **5%** anableddau, ac mae **1** o'r rhain yn uwch aelod o staff ac yn aelod o'r Bwrdd (yn ddibynnol ar fod lleoedd gwag yn codi) | Mae **12.2%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae 3 o'r rhain mewn swyddi uwch. Mae gan **3%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr anableddau. | Mae'r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn wedi gweithio gydag o leiaf **7 gwirfoddolwr** | Rydym wedi gweithio gydag **1** gwirfoddolwr yn y cyfnod uchod. Bu myfyriwr prifysgol ar interniaeth fer i gael profiad yn y maes. | Mae'r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| **2 gais grant Ymddiriedolaethau a Sefydliadau llwyddiannus** ar gyfer cyllid tuag at waith cadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw yn Nhŷ Newydd | Nid oes unrhyw geisiadau am gyllid cadwraeth gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau wedi'u cyflwyno yn y cyfnod hwn, er bod sawl cais yn cael ei ddatblygu. | Mae'r targed hwn yr un fath ag oedd yn 19/20. Er y gall y cyllid fod yn gyfyngedig oherwydd COVID-19, byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno ceisiadau. | Ein cyfrifon chwarterol a chofnod o waith codi arian |
| **Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd** wedi'i lansio, ac o leiaf **30** o Ffrindiau newydd yn ymuno | Oherwydd COVID-19 mae cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, a fydd yn cyd-fynd â chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru, wedi'i ohirio am y tro. | Er bod y targedau hyn wedi parhau'r un fath â rhai 19/20, rydym yn ymwybodol y bydd y cynnydd yn gyfyngedig tra bo Tŷ Newydd ar gau yn sgil cyfyngiadau COVID-19 y Llywodraeth. | |
| **Manylebau gwaith newydd** wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwydr | Tra bo'r ganolfan ar gau oherwydd COVID-19, bydd oedi yn y gwaith. | | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| **Adnewyddu 2 ystafell wely** i safon uchel | | | |
| Mae o leiaf **85%** o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd **90%** y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol | Dywedodd **100%** o'r mynychwyr diweddar (cyn COVID) i'w hymweliad eu helpu i wneud cynnydd fel awduron, gan awgrymu y byddent yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol. | Mae'r targedau hyn wedi aros yr un fath. Byddwn yn addasu ein dulliau casglu data wrth gael adborth am ein cyrsiau rhithwir. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Llywodraethu ac Ymgynghori**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol 1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Cynnal arolwg gyda grŵp cynrychioladol o **o leiaf 120 unigolyn** o grwpiau rhanddeiliaid ac sy'n cynrychioli partneriaid strategol o leiaf unwaith y flwyddyn | Cynhaliwyd amrywiaeth o arolygon gennym yn y cyfnod hwn, yn canolbwyntio ar amryw o elfennau sefydliadol (e.e. y cylchlythyr, ein rhaglen o weithgareddau) er mwyn clywed barn rhanddeiliaid. Cawsom **dros 460 o ymatebion** gan ein cleientiaid. Bydd yr ail arolwg blynyddol i randdeiliaid yn lansio ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020. | Mae’r targed hwn wedi cynyddu o 70 i 210 yn dilyn llwyddiant ein harolwg rhanddeiliaid swyddogol cyntaf. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Cynnal cyfweliadau neu drafod ein gwaith gyda rhwydwaith gynrychioladol o **o leiaf 18 Cyfaill Beirniadol** o leiaf unwaith y flwyddyn | Cynhaliwyd 2 gyfarfod â **Ffrindiau Beirniadol** yn ystod y chwarter hwn. Bydd yr Uwch Dîm Arwain yn ailasesu eu rhwydwaith presennol yn 2020/21 i ganfod cyfleoedd i recriwtio Ffrindiau Beirniadol. | Mae’r targed hwn wedi cynyddu fymryn o 15 i 18 ar gyfer 20/21 gan ein bod yn gobeithio recriwtio mwy o Ffrindiau Beirniadol. | |
| Cynnull **3 gyfarfod Grŵp Ymgynghori'r Bwrdd Rheoli**, **15 cyfarfod Gweithrediadau'r Uwch Dîm Rheoli** a **2 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff** yn flynyddol | Cafodd **3 chyfarfod o Grŵp Cynghori’r Bwrdd Rheoli** (Cyfarfodydd Bwrdd Argyfwng COVID-19) a **35 cyfarfod o’r Uwch Dîm Rheoli – Gweithrediadau** (cyfarfodydd COVID-19 bob yn eilddydd) eu cynnull. Rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer y ffordd orau o gynnal ein diwrnodau Cynllunio Creadigol yn ddigidol. | Mae’r targedau hyn wedi cynyddu o 2, 10 ac 1 i 3, 15 a 2 yn y drefn honno ar gyfer 20/21. Er mai cyfarfodydd digidol ydynt, rydym yn hyderus y gallwn gyflawni’r ffigurau hyn. | |
| **Rhannu dadansoddiad** o adborth rhanddeiliaid drwy adroddiadau gwerthuso misol a chwarterol, a chyfeirio ato wrth wneud penderfyniadau | Rydym wedi parhau i **rannu dadansoddiadau o adborth rhanddeiliaid** yn ein hadroddiadau gwerthuso chwarterol, ac rydym yn cyfeirio at hyn yn Adroddiad y Prif Weithredwr. Mae gan yr adroddiad hwn dudalen sy’n rhoi gwybodaeth o’n harolygon rhanddeiliaid diweddaraf. | Mae’r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. | Cynigion prosiect a chofnodion cyfarfodydd |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Hwyluso'r Sector**

| Targed ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Diweddariadau Targed 20/21 | Dull casglu data |
|---|---|---|---|
| Peidio darparu mwy na **10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn** | Rydym wedi gohirio'r rhan fwyaf o'n prosiectau gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19. Mae rhaglen newydd, wedi'i diweddaru, o weithgareddau wedi'u chreu, a bydd hon yn parhau i gael ei datblygu wrth i'n sefyllfa ariannol ddod yn gliriach yn 20/21 a 21/22. Ar hyn o bryd mae gennym 14 o gyllidebau prosiectau gweithgareddau'n fyw, ac mae **9 o'r rhain yn brosiectau rydym ni'n eu darparu'n uniongyrchol**. | Mae'r targed hwn yr un fath ar gyfer 20/21. Er nad ydym yn sicr beth fydd natur ein rhaglen o weithgareddau, ni fyddwn yn darparu mwy na 10 prosiect yn uniongyrchol. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Cefnogi **o leiaf 30 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid** fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol, a chefnogi 70 arall â chefnogaeth mewn nawdd cyffredinol | Rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i **3 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid,** ac wedi rhoi **cymorth cyffredinol ar ffurf gwasanaeth i 8** prosiect yn y cyfnod uchod. Er enghraifft, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a phrosiect cydweithio creadigol Hunaniaith i edrych ar sut y gall ysgrifennu gyfrannu at greu adnoddau dysgu yn y Gymraeg ynghylch #BlackLivesMatter a chreu geirfa ehangach ym maes hil a hunaniaeth. | Mae'r targed hwn wedi'i newid o 20 i 30 ar gyfer 20/21. At hynny, bydd y targed hwn bellach yn gwahaniaethu rhwng y prosiectau hynny sy'n cael cefnogaeth helaeth gan Llenyddiaeth Cymru, a'r rheini sy'n cael darpariaeth gyffredinol ar ffurf gwasanaeth. | |
| Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i **o leiaf 700 o unigolion**, **grwpiau a sefydliadau** yn flynyddol | Yn ystod y cyfnod hwn, rhoesom 90 awr o gyllid neu gefnogaeth i **71 o sefydliadau, grwpiau neu unigolion**. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag ystod o sefydliadau i ddatblygu syniadau ar gyfer Canmlwyddiant Raymond Williams yn 2021. Rydym wedi cyfarfod â rhanddeiliaid, wedi cymryd rhan mewn gweithgorau, ac wedi cyflwyno grwpiau a sefydliadau i'w gilydd. | Mae'r targed hwn wedi cynyddu o 150 i 700 ar gyfer 20/21. Yn sgil y pwyslais mwy a roddir ar hwyluso yn y sector, ynghyd â'n cronfa ddata newydd a gofnododd y gweithgarwch hwn yn 2019, rhoesom fwy o gymorth hwyluso na'r disgwyl. | |
| Rydym wedi ysgogi **o leiaf 10** prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol **mewn meysydd lle mae angen** | Mae **3 o brosiectau llenyddol cynaliadwy sy'n cael eu cynnal gan y bobl eu hunain** wedi'u hysgogi gennym mewn ardaloedd ble mae angen ers mis Ebrill 2020. | Mae'r targed hwn wedi codi o 4 i 10 ar gyfer 20/21 gan inni ysgogi mwy o brosiectau na'r disgwyl yn 2019. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwerthuso

## Gwersi **Sefydliadol a Gweithredol** i'w Dysgu

### Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu
### 1 Ebrill– 31 Mehefin 2020

- Mae cyfyngiadau COVID-19 y Llywodraeth wedi cryfhau ein gallu, a'n hyder, wrth **weithio o bell a rhyngweithio'n ddigidol** fel tîm. Wrth ddychwelyd yn raddol i'r swyddfa, byddwn yn gofalu ein bod yn sicrhau'r cydbwysedd iawn er mwyn i'n staff allu parhau i weithio o gartref.
- Mae gweithio o bell hefyd wedi arwain at fwy o awch i **ymwneud â rhanddeiliaid drwy sianeli digidol.** Wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, byddwn yn annog y staff i barhau i gyfathrebu'n ddigidol. Bydd hyn yn cwtogi costau'n sylweddol ac yn lleihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â theithio, cyfarfodydd a llogi lleoliadau.
- Bydd angen inni barhau i gefnogi **lles ein staff** yn ystod y cyfnod pontio wrth ddychwelyd i'r swyddfa. Ynghyd ag ymgynghori â'n staff, byddwn yn ystyried amgylchiadau unigol er mwyn sicrhau bod y tîm yn teimlo'n ddiogel yn y gwaith.
- Mae ein **Cynllun Strategol 2019-2023** yn parhau i roi cylch gwaith, rhesymeg a chyfres glir o werthoedd inni er mwyn rhoi tystiolaeth a chefnogi penderfyniadau y gall rhanddeiliaid allanol eu herio.

### Prosiectau Gweithredol
### 1 Ebrill– 31 Mehefin 2020

- Cawsom dros 400 o ymatebion i'r arolwg yn ein cylchlythyr a oedd yn ceisio rhoi sail i ddatblygu **Cynllun Marchnata a Chyfathrebu 2019-2023.** Bellach mae angen inni fanteisio i'r eithaf ar y sianel gyfathrebu hon a datblygu cynnwys cyffrous, wedi'i dargedu, i'n cynulleidfa bresennol.
- Drwy ddatblygu ein **Polisi Diogelu,** sy'n bolisi radical newydd a llawer gwell na'r un blaenorol, dangoswyd pwysigrwydd gofyn am gefnogaeth ar ffurf gwasanaeth gan sefydliadau sy'n arbenigo mewn gwahanol feysydd (e.e. Cyngor Trydydd Sector Caerdydd) er mwyn sicrhau bod ein gweithdrefnau yn cyflawni mwy na'r disgwyl.
- Mae ein **Polisi Amgylcheddol**, sydd wedi'i ddiweddaru, wedi rhoi dull clir ar gyfer addasu'r modd rydym yn gweithio i leihau ein hôl troed carbon fel sefydliad. Byddwn yn ystyried sut i integreiddio gweithio digidol yn y modd rydym yn gweithredu fel sefydliad.
- Mae'r **Archwiliad Ariannol** trylwyr diweddar, a gynhaliwyd gan archwilydd newydd, wedi dangos pwysigrwydd gweithio gyda chyflenwyr newydd yn rheolaidd er mwyn cyflwyno safbwyntiau newydd i'r feddylfryd bresennol, a dangos ein bod yn dryloyw fel sefydliad.

# Gwerthuso

## Gwersi i'w dysgu o'n **Gweithgareddau**

| Gweithgareddau | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Ebrill– 31 Mehefin 2020 | Camau Gweithredu / Argymhellion i'r Dyfodol |
|---|---|---|
| **Comisiynau i Awduron** | Gwelwyd bod **cryn wahaniaeth yn natur y ceisiadau rhwng rownd gyntaf ac ail rownd** y galwadau Gwaith Comisiwn i Awduron. Yn y rownd gyntaf, ni wnaethom bwysleisio'r flaenoriaeth i iechyd a lles na'n hymrwymiad i wneud gwaith cyfranogol er budd cymunedau, a hynny'n arwain at nifer sylweddol o syniadau a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu gwaith neu sgiliau personol. | Wrth gyhoeddi galwadau, mae angen gwneud mwy i amlygu themâu. |
| **Llyfr y Flwyddyn** | Gofynnwyd i aelod o'r panel dethol i adael ei rôl fel beirniad ar ôl ymddwyn mewn ffordd a oedd yn groes i'n gwerthoedd a'n buddiannau fel sefydliad. Roeddem yn ymwybodol y gallai hyn gael effaith negyddol ar y prosiect proffil uchel felly aethom ati'n syth i greu **Cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus mewn Argyfwng ac Asesiad Risg manwl** a ystyriai senarios i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i unrhyw faterion eraill. | Mae'r tactegau blaengar hyn, sy'n lleihau risg, yn ein galluogi i gynnal dadansoddiad 360° o sut i ymdrin â sefyllfaoedd. Dylem barhau i'w defnyddio pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau cymhleth. |
| **Y Rhaglen Datblygu Proffesiynol** | Byddwn yn defnyddio'r 50% sy'n weddill o arian y Loteri ar gyfer 20/21 i gyflwyno **Rhaglenni Datblygu Proffesiynol i unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig**. A ninnau'n ymwybodol bod yn rhaid ymgynghori ag ystod o unigolion, grwpiau a sefydliadau ynghylch amryw o elfennau, sylweddolwyd nad oes gennym ddigon o berthnasau â phartneriaid/sefydliadau posibl sy'n cynrychioli gwahanol hunaniaethau o dan acronym BAME. | Byddwn yn defnyddio'r Rhaglen Datblygu Proffesiynol fel modd i gysylltu a gweithio gyda phartneriaid posibl sy'n ymwneud ag unigolion (yn enwedig y rheini sydd â nodweddion cleientiaid sy'n cael eu targedu gennym), gan geisio creu perthnasau cynaliadwy yn gefn i'n gweithgareddau yn y dyfodol. |